**PWYLLGOR**: Pwyllgor Trwyddedu Canolog
**DYDDIAD**: 21 Tachwedd 2011
**TEITL**: Newidiadau arfaethedig i'r Ddeddf Trwyddedu 2003 - Dadreoleiddio Adloniant Rheoledig
**PWRPAS**: Er Arweiniad
**AWDUR**: Pennaeth Adran Rheoleiddio

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Yn ein cyfarfod diwethaf, ar 19 Medi 2011, cododd y Cynghorydd Ieuan Roberts y mater o fwriad y Llywodraeth yn San Steffan i wneud newidiadau sylweddol yn Neddf Trwyddedu 2003 gyda'r canlyniad, pe buasent yn dod yn ddeddfwriaeth ni fuasai gan y Cyngor reolaeth ar lawer o'r materion ble mae rheolaeth yn bresennol, neu o leiaf buasai'r rheolaeth mewn ffurf wahanol.

1.2 Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth ( DCMS) San Steffan sydd yn ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig, mae gofyn i'r Cyngor ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y 3ydd o Ragfyr 2011. (Gweler yr atodiad gopi o'r ymgynghoriad)

## 2.0 Y NEWIDIADAU A ARGYMHELLIR

2.1 Mae ymgynghoriad presennol y DCMS yn ceisio sylwadau gan rhanddeiliad ar y cynnig arfaethedig i gael gwared ar ofynion trwyddedu ar gyfer y rhan fwyaf o'r gweithgareddau a ddiffinnir ar hyn o bryd fel Adloniant wedi ei reoleiddio yn atodlen 1 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003.

2.2 Fe gyflwynir yr ymgynghoriad ar y sail fod y drefn bresennol yn creu anawsterau a rhwystr i fudiadau sydd yn ceisio trefnu gweithgareddau a digwyddiadau lle mae'r risg yn gymharol isel mewn eiddo fel neuaddau pentref ac ysgolion. Y gred, yn ôl y ddogfen ymgynghorol yw pe byddai'r cyfyngiadau yn cael eu tynnu ymaith buasai twf sylweddol yn y gweithgareddau a chynhelir; a drwy hynny wellhad yn ansawdd bywyd, a hefyd gynnydd mewn cymysgu cymdeithasol.

2.3 Y ddadl a wneir yn yr ymgynghoriad yw bod deddfwriaeth yn bodoli eisoes i reoli problemau yn deillio o adloniant cyhoeddus - megis niwsans sŵn, yn ogystal â phwerau perthnasol sydd gan y r Heddlu a'r Gwasanaeth Tan.

2.4 Cyfeirir yn y r ymgynghoriad at sefyllfaoedd sydd ar y wyneb yn afresymol ac yn gwneud synnwyr o gael gwared â'r gofyn am drwydded. Enghreifftiau o weithgareddau sydd angen trwydded yn bresennol yw:-

- Band pres yn y parc lleol
- Pianydd mewn lle bwyta
- Cyngerdd mewn ysbyty
- Dramâu ysgol
- Arddangosfa o ffilm mewn neuadd bentref

2.5 Maent hefyd yn tynnu sylw o'r anghysondeb o ran y diffyg angen am drwydded am y canlynol:-

- Gem beldroed gyda 50,000 yn bresennol
- Darllediad teledu byw mewn neuadd bentref

2.6 Tynnir sylw'r pwyllgor hefyd nad oes angen trwydded os cynhelir y gweithgaredd mewn capel neu eglwys, boed yn wasanaeth crefyddol ei natur ai beidio.

2.7 Fel ymateb i'r sefyllfa bresennol mae'r ymgynghoriad yn cynnig gwaredu a gofynion trwyddedu ar gyfer cerddoriaeth byw, cerddoriaeth wedi ei recordio, dramâu, perfformiadau dawns, ac arddangos ffilmiau ar gyfer gweithgareddau lle mae disgwyl dim mwy na 5,000 o bobl.

2.8 Fe fydd gofynion trwyddedu yn parhau mewn lle ar gyfer gweithgareddau lle disgwylir 5,000 o bobl neu fwy, gornest bocsio neu restlo, a gweithgaredd dawns a ddynodir fel adloniant rhywiol, ynghyd a chadw'r gofynion ar gyfer alcohol a bwyd poeth.

2.9 Golyga'r newidiadau arfaethedig na fydd angen i ysgolion, neuaddau cymunedol etc gael trwydded mewn perthynas ag adloniant; ond yr hyn sy'n achosi pryder yw y bydd clybiau nos, thafarndai, a digwyddiadau achlysurol hefyd yn gallu darparu adloniant heb drwydded.

2.10 Argymhellir yn yr ymgynghoriad fod y gweithgareddau hynny sydd yn cael eu dadreoleiddio yn cael eu tynnu yn awtomatig oddi ar drwyddedau cyfredol, ac y bydd modd i ddeliwr trwydded roi cais i waredu unrhyw amod ychwanegol ar y drwydded sy'n berthnasol i adloniant. Fe all hyn olygu er enghraifft, amodau sy'n gwahardd cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio rhag cael ei chwarae mewn gardd gwrw.

## 3.0 Sylwadau Gwarchod y Cyhoedd –

### 3.1 Yr Uned Drwyddedu

3.1.1 Mae carfan sy'n ceisio dylanwadu ar y Llywodraeth, fel y 'Fforwm Cerddoriaeth Byw' wedi bod yn pwyso er dyfodiad y ddeddf bod y gofynion presennol yn ormodol, ac mae'r enghreifftiau yn yr adroddiad hon yn awgrymu bod hyn yn wir. Maent yn cyfeirio'n aml at yr hen drefn o '2 yn y bar' ble nad oedd unrhyw ofyn am drwydded cyn belled ag y bod ond 2 yn perfformio. Maent yn honni bod y ddeddf bresennol yn llesteirio rhai sydd yn dymuno cynnal adloniant anffurfiol.

3.1.2 Ein cred ni o safbwynt trwyddedu yw bod llawer o'i le gyda'r ddeddf fel ac y mae, yn sicr o ran cysondeb. Mae'n wir fod rhai pwerau yn bodoli mewn eraill ffyrdd ond ein pryder yw bod hyn yn golygu defnydd o bwerau adweithiol ble mae'r gallu i osod amodau ymlaen llaw yn eu gwneud yn amlwg i bawb yn union pa lefelau sŵn ( er enghraifft) sy'n dderbyniol; neu unrhyw agweddau eraill o ran yr Heddlu neu awdurdodau arall. Cyn dyfodiad y ddeddf yma roedd yr angen am Drwydded Adloniant Cyhoeddus neu Drwydded Sinema, ac roedd amodau bryd hynny'n cael eu gosod ar y gweithgareddau.

3.1.2 Eto, fel y nodwyd, mae llawer enghraifft ble, ar y wyneb, mae'r angen am drwydded ychydig dros ben llestri, ond i awgrymu nad oes angen rheoli sefydliadau oni bai bod 5000 neu fwy yno yn mynd a'r mater i'r pegwn arall. Ni welaf fod un ffigwr a gall ei fabwysiadau yn weddus i bob achlysur neu leoliad.

3.1.3 Ein pryder, drwy iddynt geisio cywiro'r amgylchiadau hynny sy'n edrych yn afresymol yn bresennol yw eu bod am greu sefyllfa ble mae problemau eraill yn dod i'w sylw. Ar y funud, mae trwydded yn parhau yn weithredol ( os nad oes newid yn y sefyllfa), a heblaw'r drafferth gychwynnol o wneud cais a thalu'r ffi, mae'r rhan fwyaf o'r eiddo sy'n cynnal y gweithgareddau bach yn talu £100 neu lai'r flwyddyn, gyda neuaddau pentref yn cael eu heithrio o unrhyw daliad.

### 3.2 Unedau Iechyd Amgylchedd

3.2.1 Mae unedau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ( e.e. Iechyd Amgylchedd) yn ymgynghorwyr statudol o dan y drefn bresennol lle fo'r awdurdod yn derbyn cais am drwydded eiddo o'r newydd neu gais i amrywio trwydded.

3.2.2 Rydym yn benodol yn ymwneud ar Ddeddf Drwyddedu lle fo anhawster gyda chydymffurfiaeth ag un o'r prif amcanion, megis atal niwsans cyhoeddus ,yn codi. Mae mwyafrif o'n gwaith yn y maes yma yn ymwneud a chynghori ar agweddau rheoleiddio eiddo sy'n drwyddedig i werthu alcohol a chynnal adloniant cerddoriaeth byw ac wedi ei recordio.

3.2.3 Yn y cyd-estyn yma rydym yn bennaf o blaid y system bresennol oherwydd,

- Mae'r broses yn un glir, agored.
- Mae modd rhoi canllawiau pendant i ddeiliaid trwydded eiddo (sef amodau trwydded) sydd yn manylu eu hoblygiadau.

- Mae'r cyfle i osod amodau perthnasol ar drwyddedau newydd yn caniatáu gweithio yn rhagweithiol i ddelio a phroblemau posib.
- Mae'r gallu i wneud cais am adolygiad trwydded eiddo yn rhoi siawns deg ac agored i'r gwasanaeth ac eraill ddelio a phroblemau os ydynt yn codi, heb angen i fynd a materion i sylw llys, drwy gyfraith.
- Mae modd defnyddio'r broses o drwyddedu digwyddiadau i sicrhau fod ystyriaethau iechyd a diogelwch y cyhoedd yn derbyn sylw llawn y trefnwyr. Yn aml trefnir digwyddiadau o'r fath ar eiddo sydd yn disgyn tu allan i reolaeth gorfodaeth iechyd a diogelwch y Cyngor ( h.y. gorfodaeth y Gweithgor Iechyd a Diogelwch, HSE)
- Gall defnydd o geisiadau am adolygiad trwydded ddatrys problemau yn llawer cyflymach na defnydd cyfraith berthnasol yr ydym yn ei orfodi.
- Rhagwelir hefyd fod cost gwneud cais am adolygiad trwydded yn llawer is na chost o erlyn mewn llys am dor cyfraith berthnasol arall.

**3.3 <u>Oblygiadau ariannol</u>**

3.3.1 Mae awgrym yn yr ymgynghoriad y byddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at leihau costau prosesu ac ymateb i geisiadau am drwydded; er hyn rhagwelir fod gwir botensial i'r nifer o gwynion niwsans sŵn a dderbynnir gynyddu'n sylweddol; yn ogystal â'r costau yn sgil mynd i gyfraith yn amlach i sicrhau datrysiad i gwyn.

## 4.0 CRYNHOI

4.1 Prif gynnig yr ymgynghoriad yw lleihau gofynion rheoleiddio ar weithgareddau a fynychir gan lai na 5 mil o bobl. Yn ein barn ni nid nifer y bobl sydd yn mynychu eiddo neu weithgaredd sy'n berthnasol lle fo potensial am greu niwsans cyhoeddus yn ystyriaeth. Mae natur adloniant , gwerthiant alcohol ynghyd a lleoliad yn agweddau llawer pwysicach.

4.2 Mae'n sicr fod agweddau i'r Ddeddf Drwyddedu 2003 sydd angen ei dileu / diwygio. Rhaid hefyd datgan fod agweddau o'r Ddeddf fel y nodir yn ddefnyddiol ac yn gosod trefn deg sy'n galluogi pobl gynnal adloniant wrth fodd cwsmeriaid nad yw'n amharu yn ormodol ar fuddiannau trigolion lleol.

## 5.0 GWEITHREDIAD

5.1 Fel y nodwyd yn y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Medi 2011, paratoir ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, yn dilyn sylwadau a dderbynnir gan y pwyllgor yma; ac ymgynghoriad gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, ynghyd a'r Arweinydd Portffolio cyn cyflwyno'r ymgynghoriad terfynol. Gwahoddir sylwadau ar yr ymgynghoriad a'r cwestiynau penodol a ofynnir ( gweler atodiad) erbyn 25ain o Dachwedd.